**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Llawr 5
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 July 2013

Annwyl Brif Weinidog

**Gorchmynion Cychwyn**

Mae'n thema gyson sy'n codi yn ein gwaith o graffu ar bwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth, y dylai'r Cynulliad graffu i raddau priodol ar ddeddfwriaeth o'r fath.

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddau Orchymyn Cychwyn yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2013, sef *Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol, Dros Dro ac Arbed) (Cymru) 2013* a *Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013.*

Nid yw'n arferol i ni ystyried gorchmynion cychwyn gan nad ydynt yn destun unrhyw weithdrefn.

Fodd bynnag, yn ddiweddar, fel rhan o'n gwaith craffu ar ddarpariaethau cychwyn mewn Biliau, rydym wedi sylwi bod rhai Biliau yn caniatáu i ddefnyddio gorchymyn cychwyn i gynnwys, er enghraifft, darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol neu drosiannol. Rydym yn ystyried na ddylai darpariaethau o'r fath gael eu cynnwys o fewn gorchmynion cychwyn, i sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i lefel briodol o graffu.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / Email: ruth.hatton@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion yn ein hadroddiadau ar y gwaith o graffu ar Filiau i ddelio â'r mater hwn a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn rydym wedi ystyried y ddau orchymyn uchod, gan eu bod yn fwy na darpariaethau cychwyn yn unig.

O ganlyniad i'n hystyriaeth o'r gorchmynion hyn, gofynnodd y Pwyllgor i mi ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn ar ddefnyddio gorchmynion cychwyn i gynnwys darpariaethau nad ydynt yn rhai cychwyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y pwyntiau hyn ac yn anfon eich ymateb i'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**